CORWYNT CARIAD

RWAN – tyfu reis

Mae bywyd ffermwyr y Pilipinas yn cael ei effeithio gan newid hinsawdd heddiw. Mae corwyntoedd yn fwy aml, y gwyntoedd yn gryfach, y glaw yn drymach a phatrwm y tywydd yn gyffredinol yn fwy anrhagweladwy. Gwna hyn ffermio yn anodd iawn. A chyda 30% o bobl y Pilipinas yn ddibynnol ar ffermio am eu bywoliaeth, mae'n holl bwysig eu bod yn darganfod ffyrdd o addasu er mwyn gallu dygymod.

Yn rhanbarth Sorsogon, mae RWAN (Rice Watch and Action Network), un o bartneriaid Cymorth Cristnogol, yn hyfforddi ffermwyr a'u helpu i addasu i'r sefyllfa sy'n newid. Maent yn dod a ffermwyr, arbenigwyr tywydd a chynghorau lleol at ei gilydd mewn ymdrech i geisio gwella cnydau.

Arbrofi gyda mathau o reis gwahanol

Mae Naomi Bantwan yn fam i bedwar o fechgyn ac yn byw yn Irosin, tref yn rhanbarth Sorsogon. Mae'n rhan o arbrawf yn ei chymuned, sef tyfu reis sydd yn wydn yn wyneb effeithiau newid hinsawdd.

Mae Naomi a'i chydweithwyr yn cerdded siwrne o awr pob dydd Gwener i safle'r arbrawf. Yno maent yn treulio'r prynhawn yn mesur twf eu planhigion - yn cyfrif pob deilen a mesur maint y coesynnau. Maent hefyd yn gwirio pa bryfetach sydd ar y planhigion a byddant yn arbrofi gyda gwahanol fathau o blaladdwyr organig a naturiol. Mae'n waith manwl a blinedig, ond, fel y dengys arbrofion o'r gorffennol, mae'n waith sy'n dwyn ffrwyth mewn cnydau gwell.

Mae Ysgolion Maes Dycnwch Hinsawdd, sydd yn rheoli'r arbrawf uchod, yn rhan o waith allweddol RWAN. Mae'r ysgolion hyn, sy'n cael eu cynnal mewn gwahanol gymunedau, yn hyfforddi'r ffermwyr mewn technegau ffermio sydd yn well ar gyfer y patrymau tywydd newydd. Mewn rhaglen 16 wythnos, dysga'r ffermwyr sut i blannu gwanhaol fathau o blanhigion reis ac astudio eu

Anna Jane o Gymorth Cristnogol a Cheryl a Bethan, EBC, yn cyfarfod Naomi yn ei chae reis.

twf i weld pa un sydd orau ar gyfer eu hardal hwy. Mae RWAN yn monitro'r tywydd yn ofalus hefyd, ac yn anfon negeseuon testun i'r ffermwyr gyda rhagolygon y tywydd. Mae hyn yn caniatáu'r ffermwyr i blannu a medi ar yr adeg gorau.

Yn ogystal ag anfon rhagolygon y tywydd i ffonau'r ffermwyr, mae RWAN yn gosod diweddariad tywydd ar hysbysfwrdd y tu allan i'w swyddfeydd. Yn y gorffennol byddai corwyntoedd yn gallu dinistrio cnydau cyfan oherwydd iddynt gyrraedd yn ddirybudd. Ond bellach mae'r rhybuddion hyn yn help i'r ffermwyr baratoi ar eu cyfer.

Costau is yn fuddiol

Gwelir effaith gwaith RWAN gyda ffermwyr, arbenigwyr hinsawdd a swyddogion lleol yn y costau is ar gyfer ffermio. Ynghynt gallai ffermwr ddefnyddio 100kg o had i gynhyrchu cnwd ond bellach gellid gwneud hynny gyda dim ond 40kg - sydd yn golygu llawer llai o gost.

Mae'r costau is hyn wedi arwain at fuddiannau eraill. Er enghraifft, mae ffermwyr Barangay Tongdol wedi adeiladu siop gig ar gyfer eu cymuned. Buddsoddodd pob aelod 500 peso (£8.20) ac maent yn awr yn gwerthu cig i'r gymuned letach. Maent hefyd yn gallu gwerthu i aelodau'r grŵp am bris is.

Golyga hyn bod ganddynt obaith i'w plant. Diolch i'r incwm ychwanegol hwn gall y plant dderbyn addysg ac mae gobaith gwirioneddol y gallant reoli'r rhaglen eu hunain rhyw ddydd. Mae eu dyfodol yn llawer mwy diogel bellach ac ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb help RWAN.

Gweddi

Arglwydd Dduw, diolch iti am fyd mor hyfryd. Mae'n ddrwg gennym ein bod wedi amharu cymaint arno. Gweddïwn dros gymunedau y Pilipinas sy'n dioddef effaith newid hinsawdd. Diolchwn am waith partner Cymorth Cristnogol, RWAN, a'u gwaith gyda ffremwyr yn cynhyrchu cnydau reis mwy gwydn. Parha i fendithio eu hymdrechion. Gofynwn yn neilltuol dros ffermwyr bach fel Naomi, y byddant yn gweld ffrwyth i'w gwaith.
Yn enw Iesu. Amen.

cymorth cristnogol

www.ebcpcw.cymru

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · THE PRESBYTERIAN CHURCH OF WALES · GOLEUNI Y BYWYD

Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 Rhif cwmni DG 5171525. Nodau masnachu Cymorth Cristnogol yw'r enw Cymorth Cristnogol a'r logo. © Cymorth Cristnogol Tachwedd 2016
Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o ACT Alliance. Argraffwyd yn llwyr ar ddeunydd wedi tarddu o fforestydd a reolir yn gyfrifol. Llun: Cymorth Cristnogol J6751